# Sut mae bwcio lleoliad ar gyfer eich gweithgaredd grŵp

National Autistic Society Cymru

## 1. Dewis lleoliad



Gwnewch yn siŵr bod y lleoliad yn addas ar gyfer anghenion penodol yr holl aelodau. Er enghraifft:

- Oes angen mynediad i gadair olwyn arnoch chi?
- A oes llefydd parcio i bobl anabl?
- Ydy'r aelodau'n gallu cyrraedd y lleoliad ar drafnidiaeth gyhoeddus?
- A oes gan yr aelodau unrhyw faterion synhwyraidd i'w hystyried, fel goleuadau llachar, synau uchel neu arogleuon?
- A oes lle tawel ar gael i aelodau sy'n teimlo dan straen?

## 2. Pryd i gynnal y digwyddiad



Ewch ati i gael gwybod:

- faint o bobl sy'n dod
- beth fyddai'n amser da sy'n addas i'r holl aelodau?
- ar ba ddiwrnod ddylai fod?
- a ddylid ei gynnal yn ystod yr wythnos neu ar benwythnos?
- a ddylid ei gynnal yn ystod y dydd neu gyda'r nos?
- pa mor hir ddylai'r digwyddiad bara?

## 2. Pryd i gynnal y digwyddiad parhau....



Gwnewch nodyn o:

- **ddyddiad y digwyddiad**
- **amseroedd dechrau a gorffen y digwyddiad**
- **nifer y bobl sy'n dod i'r digwyddiad.**

## 3. Yn barod i archebu'r lleoliad









Ar ôl i chi gael yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch i archebu'r lleoliad, mae pedair ffordd o wneud hyn.

- Yn bersonol: siaradwch ag aelod o staff yn y lleoliad
- Dros y ffôn: chwiliwch am rif ffôn cyswllt y lleoliad a siarad ag aelod o staff
- E-bost: e-bostiwch eich gofynion archebu yn uniongyrchol i'r lleoliad. Chwiliwch am gyfeiriad e-bost y lleoliad ar eu gwefan
- Llenwch y ffurflen bwcio ar-lein ar wefan y lleoliad

**DS: Efallai y bydd gofyn i chi adael eich manylion cyswllt (eich enw, rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost). Efallai y bydd gofyn i chi dalu ymlaen llaw. Byddwch yn barod ar gyfer y posibilrwydd hwn. Ar ôl i chi gwblhau'r camau hyn, byddwch chi wedi archebu eich bwrdd.**